# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 7 Gorffennaf 2011** |
| Amser: | **9:29 - 10:07** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_07_07_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

**Aelodau'r Cynulliad:**

**Mark Drakeford (Cadeirydd)**
**Mick Antoniw**
**Rebecca Evans**
**Janet Finch-Saunders**
**Vaughan Gething**
**Elin Jones**
**Lynne Neagle**
**Lindsay Whittle**
**Kirsty Williams**

**Tystion:**

**Staff y Pwyllgor:**

**Llinos Dafydd (Clerc)**
**Claire Morris (Clerc)**

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Darren Millar. Nid oedd dirprwyo.

## 2. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Ffyrdd o weithio

2.1 Nododd y pwyllgor ei rôl ddeuol o graffu ar ddeddfwriaeth a pholisi a nododd benderfyniad y Pwyllgor Busnes i amserlennu diwrnod a hanner bob pythefnos i'r pwyllgor drefnu ei waith.

2.2 Cytunodd y pwyllgor i ymgynghori â chyrff allanol yn ystod toriad yr haf ar ei ffyrdd o weithio a thestunau posibl ymchwiliadau yn y dyfodol.

## 3. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Trafod materion o fewn portffolio y Pwyllgor ac ystyried ei flaenraglen waith

3.1 Cytunodd y pwyllgor y byddai'n gwahodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod ar 13 Gorffennaf i roi cyflwyniad cyffredinol am eu portffolios a'u blaenoriaethau. Byddent wedyn yn cael eu gwahodd i sesiwn graffu mwy manwl ar ddechrau tymor yr hydref.

3.2 Cytunodd y pwyllgor y byddai'n dechrau ymchwiliad cyn toriad yr haf ac y byddai'r gwasanaeth ymchwil yn paratoi papur erbyn y cyfarfod nesaf yn nodi cwmpas ymchwiliadau posibl. Byddai'r papur hwn wedi'i seilio ar bynciau a awgrymwyd gan Aelodau ac ar argymhellion adroddiadau etifeddiaeth pwyllgorau'r Trydydd Cynulliad

3.3 Byddai'r pwyllgor yn ystyried ei raglen waith ar gyfer yr hirdymor yn yr hydref, pan fyddai rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth wedi ei chyhoeddi.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.